

## Gweithgarwch adroddiadau thematig arfaethedig 2017-2018

Mae'r adolygiadau thematig sydd wedi'u cynnwys yng nghylch gwaith Estyn ar gyfer 2017-2018 wedi'u rhestru yn y tabl isod.

Mae'r rhestr yn cynnwys 13 eitem: 2 adolygiad mawr a fydd yn darparu deunyddiau ategol ymarferol i'r sector; 9 adolygiad safonol a 2 adolygiad byr. Mae amser ar gyfer cynnal un adolygiad ymateb cyflym, byr hefyd.

| Teitl   | Diben   | Blwyddyn/Hyd                        |
|---|---|-------------------------------------|
| 1. Arfer orau mewn ysgolion a cholegau wrth addysgu'r TGAU newydd a Bagloriaeth Cymru newydd. | Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar gynllunio'r cwricwlwm a gweithredu'r TGAU newydd mewn Saesneg a Chymraeg iaith ac mewn mathemateg a rhifedd, a Bagloriaeth Cymru newydd. Bydd yn cynnwys ystyried sut caiff disgyblion eu cyflwyno ar gyfer arholiadau. Bydd yr adolygiad yn ei gwneud hi'n haws rhannu arfer effeithiol trwy ddeunyddiau hyfforddi a chynhadledd. | Blwyddyn 1 o 1<br>Adolygiad mawr    |
| 2. Gwella addysgu a meithrin gallu: canllaw arfer dda a phegyn cymorth i ysgolion.            | Bydd yr adolygiad hwn yn arfarnu effaith rhaglenni fel arsylwadau cymheiriaid, anogaeth a mentora ar ddisgyblion mewn ysgolion cynradd, arbennig ac uwchradd. Bydd adnoddau i ysgolion yn cyd-fynd â'r adroddiad.   | Blwyddyn 1 o 1<br>Adolygiad mawr    |
| 3. Paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd: blwyddyn 2.   | Yr adolygiad hwn fydd yr ail mewn cyfres o dri adroddiad ar gynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd. Bydd yn canolbwyntio ar agweddau penodol ar ddiwygio'r cwricwlwm, yn enwedig y gallu i arwain, dysgu proffesiynol a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.   | Blwyddyn 2 o 3<br>Adolygiad safonol |
| 4. Addysg grefyddol a moesol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3.                  | Mae'r adroddiad hwn yn rhan o gyfres o adroddiadau ar feysydd pwnc y cwricwlwm. Bydd yn adeiladu ar adroddiad 2013 ar Addysg Grefyddol yng nghyfnod allweddol 4.  | Blwyddyn 1 o 1<br>Adolygiad safonol |
| 5. Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3: adroddiad pwnc.                    | Mae'r adroddiad hwn yn rhan o gyfres o adroddiadau ar feysydd pwnc y cwricwlwm. Bydd yn canolbwyntio ar y Gymraeg fel pwnc o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3 ac yn cysylltu â   | Blwyddyn 1 o 1<br>Adolygiad safonol |

|   |   |                                     |
|---|---|-------------------------------------|
|   | datblygiadau cynnar gyda'r maes dysgu a phrofiad newydd.  |                                     |
| 6. Safon Uwch yn y chweched dosbarth ac mewn colegau.   | Bydd yr adolygiad hwn yn rhoi trosolwg o safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth o ran y ddarpariaeth Safon Uwch i ddysgwyr 16 - 19 oed yn y chweched dosbarth ac mewn colegau.  | Blwyddyn 1 o 1<br>Adolygiad safonol |
| 7. Addysg gychwynnol athrawon a dysgu proffesiynol mewn ysgolion.   | Bydd yr adolygiad hwn yn cynnig astudiaeth waelodlin o'r gydberthynas rhwng arferion hyfforddiant cychwynnol athrawon a dysgu proffesiynol mewn ysgolion. Bydd yn helpu i hysbysu darparwyr am addysg gychwynnol athrawon wrth baratoi ar gyfer y cyrsiau addysg gychwynnol athrawon sydd newydd eu hachredu. Bydd yn canolbwyntio ar anogaeth a mentora, sy'n elfennau pwysig o addysg gychwynnol athrawon ac o ddysgu proffesiynol. | Blwyddyn 1 o 1<br>Adolygiad safonol |
| 8. Prentisiaethau uwch.   | Bydd yr adolygiad hwn yn darparu adroddiad gwaelodlin cenedlaethol ar brentisiaethau uwch.  | Blwyddyn 1 o 1<br>Adolygiad safonol |
| 9. Cyfleoedd addysg a hyfforddiant i droseddwyr ifanc.  | Bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar addysg a hyfforddiant troseddwyr ifanc yng Nghymru, sy'n grŵp o ddysgwyr arbennig o agored i niwed.  | Blwyddyn 1 o 1<br>Adolygiad safonol |
| 10. Symudiadau wedi'u rheoli – pa mor dda mae'r rhain yn cael eu defnyddio gan ALLau ac ysgolion          | Bydd yr adolygiad hwn yn rhoi trosolwg o'r defnydd ar symudiadau rheoledig a pha mor aml y cânt eu defnyddio: yn dilyn negeseuon o adroddiad Estyn ar Addysg Heblaw yn yr Ysgol yn 2016.  | Blwyddyn 1 o 1<br>Adolygiad safonol |
| 11. Gwasanaethau i Bobl Ifanc yng Nghymru.  | Bydd yr adolygiad hwn yn rhoi trosolwg o wasanaethau ieuencid yng Nghymru. Bydd yn cyfrannu at arfarniad ar y cyd gan Arolygu Cymru (Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru ac AGGCC).  | Blwyddyn 1 o 1<br>Adolygiad safonol |
| 12. Pa mor barod yw awdurdodau lleol ac ysgolion i ateb galwadau newydd y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol. | Bydd yr adolygiad hwn yn cynnig gwaelodlin er mwyn helpu i lunwyr polisi farnu effaith y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y dyfodol.   | Blwyddyn 1 o 1<br>Adolygiad byr     |
| 13. Cyfathrebu â rieni disgyblion ysgol a gwybodaeth ar eu cyfer.   | Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y llwybrau cyfathrebu sy'n well gan rieni. Bydd yn ystyried sut mae ysgolion yn ceisio gwella'u llinellau cyfathrebu presennol. Bydd ffynonellau tystiolaeth yn cynnwys ymatebion i holiaduron Estyn, sy'n dangos bod yr atebion lleiaf cadarnhaol ar yr holiadur i rieni yn ymwneud â chyfathrebu: gwybod sut i   | Blwyddyn 1 o 1<br>Adolygiad byr     |

|   |   |  |
|---|---|--|
|   | gwyno a chael gwybod am gynnydd eu plant. |  |
| Amser ychwanegol ar gyfer cynnal un adolygiad ymateb cyflym, byr. |   |  |